# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Bro Ffestiniog.



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **10** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ym Mro Ffestiniog gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW / LESBIAN
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3055
47
29
53
425
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
46
3218
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
317
3068
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Bro Ffestiniog


## 3.1 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Bro Ffestiniog


3.2 Derbyniwyd **161** o ymatebion i’r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Bro Ffestiniog.






NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU LLAI
16 - 24 OED
25 - 34 OED
35 - 44 OED
45 - 54 OED
55 - 64 OED
65 - 74 OED
75 - 84 OED
85 + OED
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
2
6
22
22
35
34
25
6
0
9
0
5
10
15
20
25
30
35
40



YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
DARLLEN CYMRAEG
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
DDIM YN DEALL CYMRAEG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
96
70
74
71
31
14
0
20
40
60
80
100
120



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
96
SEISNIG
24
ALBANAIDD
1
PRYDEINIG
28
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
10
ARALL:
2
0
20
40
60
80
100
120


BETH YW EICH HIL?
GWYN
147
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
1
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
2
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
10
ARALL:
1
0
20
40
60
80
100
120
140
160


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
78
BWDHAIDD
2
ANFFYDDIWR
28
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
40
ARALL:
13
0
10
20
30
40
50
60
70
80
90


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW
DEURYWIOL
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
135
2
2
2
20
0
20
40
60
80
100
120
140
160


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YNDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
1
145
12
0
20
40
60
80
100
120
140
160


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
13
133
15
0
20
40
60
80
100
120
140

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ffestiniog.

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ffestiniog.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Blaenau Ffestiniog | **71** |
| • Llan Ffestiniog | **19** |
| • Trawsfynydd | **19** |
| • Manod | **18** |
| • Gellilydan | **11** |
| • Maentwrog | **10** |
| • Tanygrisiau | **8** |
| • Arall: | **3** |
| • Bethania | **2** |

# 5 Beth sy’n dda am Fro Ffestiniog?

5.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ffestiniog. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ffestiniog i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy’n dda am Fro Ffestiniog?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Hanes a diwylliant yr ardal | **134** |
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd a chefn gwlad | **125** |
| • Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant | **99** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | **91** |
| • Mae’n ardal ddiogel | **72** |
| • Mae’r darpariaeth addysg ac ysgolion yn dda | **42** |
| • Gallu’r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **39** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **33** |
| • Cysylltiadau ffyrdd da | **27** |
| • Gwasanaeth a darpariaeth iechyd da yn lleol | **23** |
| • Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal | **13** |

5.2 Mewn ymateb i’r cwestiwn **‘Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Fro Ffestiniog sydd heb ei restru uchod’**, derbyniwyd **29** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ffestiniog. Roedd nifer o’r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol (n=6), Ysbryd a chyfeillgarwch lleol (n=6) a chynnyrch a busnesau lleol yr ardal (n=2).

O’r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd yn dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus e.e. cysylltiadau rheilffordd a bysiau | **3** |
| • Nifer o weithgareddau e.e. beicio a dringo. | **2** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gydag elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Fro Ffestiniog?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ffestiniog. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ffestiniog i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd <u>ddim mor dda</u> am Fro Ffestiniog?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **82** |
| • Dim cyfleoedd i gadw pobl ifanc yn y fro | **82** |
| • Mae'r economi leol yn fregus ac mae diffyg adnoddau a siopau | **79** |
| • Edrychiad y Stryd Fawr a sbwriel a blerwch yn broblem | **67** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a tai haf yn yr ardal | **65** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **63** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **61** |
| • Ardal ddim yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth – Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal neu ddim yn ymwybodol o anghenion lleol | **54** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc | **48** |
| • Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **45** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal | **33** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr yr iaith | **16** |
| • Meddylfryd y gymuned am yr ardal | **14** |
| • Dim gwasanaeth ieuenctid a blynyddoedd cynnar | **12** |
| • Darpariaeth addysg | **6** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd ddim mor dda am yr ardal sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **57** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ffestiniog. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Mae nifer uchel o ail dai a tai haf yn yr ardal (n=6); diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc / Dim gwasanaeth ieuenctid a blynyddoedd cynnar (n=6); Mae'r economi leol yn fregus ac mae diffyg adnoddau a siopau (n=6); Edrychiad y Stryd Fawr a sbwriel a blerwch yn broblem (n=4).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cam-ddefnydd o sylweddau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn yr ardal. | **5** |
| • Diffyg llwybrau cerdded a beicio sy'n cysylltu'r pentrefi yn yr ardal. | **4** |
| • Diffyg gofal plant ar ôl ysgol a grwpiau mam a babi. | **3** |
| • Pryderon am wasanaeth iechyd e.e. diffyg deintyddion yn yr ardal. | **3** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gydag elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ffestiniog dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ffestiniog. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ffestiniog i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ffestiniog dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | **94** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a chynlluniau i drawsnewid delwedd y Stryd Fawr | **82** |
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **68** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | **59** |
| • Cynlluniau i daclo tlodi | **56** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **52** |
| • Mwy o gynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogaeth i bobl ifanc | **49** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **50** |
| • Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | **48** |
| • Cynlluniau i ddatblygu'r Ganolfan y dref | **38** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith | **36** |
| • Cynlluniau i sefydlu a datblygu mwy o gwmnïau a mentrau cydweithredol | **24** |
| • Cymorth i gynnal digwyddiadau yn yr ardal | **21** |
| • Gwelliannau o fewn y ddarpariaeth addysg | **18** |
| • Cynlluniau i ddatblygu polisi gofal plant fforddiadwy | **17** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **34** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ffestiniog. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a chynlluniau i drawsnewid delwedd y Stryd Fawr (n=5); materion ynghylch tai (n=5); cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Datblygu llwybrau Seiclo a cherdded diogel. | **2** |
| • Materion ynghylch diogelwch ffyrdd a pharcio. | **2** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gydag elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Bro Ffestiniog yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Ffestiniog.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Clwb LHDT+ GISDA - Blaenau Ffestiniog (22/6/22).**

## Beth sy'n dda am ardal Bro Ffestiniog?

- Llawer o lefydd i fynd am dro.
- GISDA – grwpiau fel phobl ifanc ac criw LGBTQ+.
- Siop Kebab.

## Beth sydd ddim mor dda am Fro Ffestiniog?

- Canfyddiad nad oes dim yn cael ei wneud am y defnydd o gyffuriau yn yr ardal.
- Materion ynghylch addysg.
- Ddim yn teimlo'n ddiogel yn ystod y nos.
- Canfyddiad o ddiffyg presenoldeb yr heddlu ar y strydoedd.
- Trafnidiaeth bws yn wael, amserlenni ddim yn cael eu diweddaru yn ddigon aml.
- Rhagfarn.
- Fandaliaeth – parc sglefrio.
- Sbwriel yn bob man.
- Cyfarpar biniau yn cael eu torri weithiau wrth casglu.
- Ddim yn cael eu dysgu sut i reidio beic.
- Canfyddiad o rhagfarn tuag at pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg ac pobl sydd yn ymweld â'r ardal.
- Dim digon o wybodaeth dwyieithog.
- Mae'r gymuned yn teimlo fel eu bod wedi cael eu gadael ar ôl.
- Dim i wneud yn yr ardal ar gyfer pobl ifanc.
- Dim swyddi yn yr ardal – trafnidiaeth dim digon ddibynadwy i gael swyddi tu allan i'r ardal.

## Beth hoffech gweld yn newid yn y 15 mlynedd nesaf?

- Edrych ar gwahanol bethau o fewn y maes addysg.
- Trafnidiaeth gwell.
- Mwy o siopa fforddiadwy – Lidl/Aldi.
- Mwy o weithgareddau yn yr ardal.
- Mwy o gyfleoedd creadigol yn yr ardal.
- Mwy o swyddi yn yr ardal.

**Bwrdd Pobl Ifanc GISDA - Blaenau Ffestiniog - (7/6/22).**

## Be sy'n dda am Fro Ffestiniog?

- Golygfeydd, treftadaeth, llefydd neis i gerdded o amgylch yr ardal.
- Siop Kebab
- Y pobol a'r gymuned
- Y Pwll nofio
- GISDA – Cael tocyn i fynd i'r campfa am ddim neu i nofio
- Y Campfa
- Cell B – Gwallgofiaid / Clwb Clink
- Youth Shedz
- Dref werdd – Cynnal sesiynau codi sbwriel
- Trenau yn ddibynadwy
- Gwasanaeth digartref y Cyngor yn dda
- Cymraeg yn cael ei ddefnyddio yn gryf yn Ysgol y Moelwyn

## Beth sydd ddim mor dda am Fro Ffestiniog?

- Rhai pobl ifanc ddim yn parchu'r ardal e.e. taflu sbwriel, fandaliaeth (Youth shedz, parc sglefrio), llosgi'n fwriadol, ymddygiad gwrthgymdeithasol (wedi tynnu meinciau y stesion drên i ffwrdd oherwydd hyn).
- Cyffuriau yn broblem mawr yn yr ardal, llawer gwaeth ar ôl Coronafeirws.
- Dim cyfleoedd swyddi yn yr ardal – cyflogau isel.
- Stryd Fawr yn wael, llawer o busnesau lleol wedi gorfod cau ar ôl Coronafeirws.
- Cysylltiadau trafnidiaeth yn wael, ddim yn ddibynadwy. Pobl leol yn dibynnu arnynt i gael swyddi tu allan i'r ardal, ond yn aml maent yn anrhagweladwy. Amserlen ddim yn cael ei diweddaru yn broblem. Dim ond un bws yn mynd i Dolgellau y diwrnod (bws coleg).
- Sefyllfa Tai yn anodd – costau, argaeledd, yn aml dim ond yn cael cymorth tan y mae'n rhy hwyr.
- Canfyddiad bod cymorth gwasanaethau cymdeithasol yn annigonol.
- Dim Canolfan Byd Gwaith yna, gan bod cysylltiadau trafnidiaeth yn annigonol mae hi'n anodd mynd i apwyntiadau, rhaid aros tan oriau hwyr yn y nos i gael bws yn ôl i Blaenau ar ôl apwyntiad.
- Gofal Iechyd – darpariaeth cymorth Iechyd meddwl yn annigonol, aml yn cael cymorth pan mae hi rhy hwyr. Dim clinigau iechyd rhywiol. Amseroedd aros hir am ambiwlans.
- Canfyddiad o ddiffyg presenoldeb yr Heddlu yn yr ardal, angen heddlu lleol sydd yn siarad Cymraeg.
- Diogelwch ffyrdd yn poeni y gymuned – Ceir yn gyrru drwy'r ardal. Rhai plant ar feics yn gyrru'n beryglus.
- Toriadau grant i pobol ifanc heb incwm – arfer cael grant dillad
- Y ganolfan hamdden – Yr ystafell ffitrwydd ar gael i'r cyhoedd ond mae'r amseroedd agor yn anghyson, hefyd yn rhy ddrud i pobl a incwm isel.
- Cymuned yn ynysig – Dim teimlad o gymuned, yn enwedig rhwng plant ifanc ac pobol hyn, does dim cyfleoedd i nhw gysylltu hefo eu gilydd.
- Plant yn diflasu ar yr ardal, dim i'w cadw allan o drwbl.
- Costau byw rhy uchel ac yn mynd yn waeth

- Dim siopau bwyd rhad lleol fel Aldi neu Lidl, gorfod siopa yn Co-op neu Londis ble mae prisiau llawer uwch.
- Parc sglefrio yn wael iawn, yn cael ei fandaleiddio ac yn lleoliad poblogaidd I ddefnyddio cyffuriau (nodwyddau, llwyau ac gwydr ar y llawr) 'clink' Cell B yn trio hel cyllid i'w gwella ac i gael offer i allu sglefrio yn ganolfan Cell B yn lle.
- Yn aml mae problemau hefo casglu biniau/aros i gael biniau newydd, biniau yn aml yn cael eu dwyn.
- Dreifio - Mwy o gymorth i helpu plant ifanc cael gwersi/trwydded ac prawf.
- Hostel mewn cyflwr gwael (hyn yn ychwanegu at problemau meddwl)
- Dim banc yn yr ardal, problem mawr i'r henoed.
- Dim CCTV
- Wedi cael gwared o Clybiau ieuenctid – Blaenau hefo rhywbeth tebyg 'Youth Shedz' yn lle

## Beth hoffech gweld yn newid yn y 15 mlynedd nesaf?

- Cael yr heddlu i fynd i'r ysgol i siarad hefo plant, gwella teimlad o gymuned ac cymorth.
- Cael sesiynau 'paned a plismon' i'r gymuned cael cyfle i gael sgwrs. Syniad i gyflwyno hyn i'r plant yn ystod ysgol iddynt ddod i adnabod y tîm ac bod yn gyfforddus i siarad.
- McDonalds
- Mwy o wyrdd tu fewn i'r stryd fawr - plannu blodau
- Tocynnau teithio am ddim i pobol ifanc o dan 25 / incwm isel
- Tocynnau i'r ganolfan hamdden am ddim i pobol ifanc o dan 25 / incwm isel
- Mwy o gyfleoedd am ddim – cyflogau yn isel iawn, nid yw rhan fwyaf yn gallu fforddio gwneud gweithgareddau.
- Gallu sefydlu gwarchod cymunedol – codi sbwriel o amgylch llefydd fel y parc sglefrio yn gallu bod yn rhan o hyn.
- Mwy o gymorth i'r ysgol i hysbysebu cyfleodd yn yr ardal.
- Gwella yr hostel drwy broses ymgynghori gyda'r trigolion i'w wneud fwy cartrefol – Rhywbeth tebyg wedi digwydd yn Caernarfon hefo Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.
- Cynnyrch mislif am ddim
- Mwy o digwyddiadau/gigs cymunedol
- Mwy o grantiau i gynnal gweithgareddau i'r gymuned
- Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli yn yr ardal
- Eisiau cychwyn bwrdd ieuenctid gyda'r Cyngor
- Yr ysgolion yn dysgu mwy o sgiliau byw 'coginio, ariannol, iechyd rhywiol, llywodraeth, pleidleisio'
- Cael Cyngor Gwynedd i helpu ac rhoi cymorth i 'Senedd Ieuenctid Cymru'

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000